POLISI A STRATEGAETH, DOGFENNU

# Trefniadau'r Grant Teithio ar gyfer myfyrwyr cymwys ar raglenni Erasmus+, Turing a Taith (SFWIN 06/2023)

Mae'r hysbysiad hwn yn disgrifio trefniadau'r grant teithio ar gyfer myfyrwyr ar raglenni Erasmus +, Turing a Taith.

**Cyhoeddwyd gyntaf:** 1 Mai 2024

**Diweddarwyd ddiwethaf:** 1 Mai 2024

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/trefniadaur-grant-teithio-ar-gyfer-myfyrwyr-cymwys-ar-raglenni-erasmus-turing-taith-sfwin-062023** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Cynnwys

**Grant Teithio**

**Ymholiadau am yr hysbysiad gwybodaeth hwn**

**Atodiad**

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/trefniadaur-grant-teithio-ar-gyfer-myfyrwyr-cymwys-ar-raglenni-erasmus-turing-taith-sfwin-062023** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Grant Teithio

Yn dilyn cyflwyno rhaglenni symudedd Turing a Taith, mae'r Hysbysiad Gwybodaeth hwn yn rhoi eglurhad o’r trefniadau pan fydd myfyrwyr yn gallu cyflwyno cais am Grant Teithio i Gyllid Myfyrwyr Cymru.

Gall myfyrwyr cymwys ar raglenni Erasmus+, Turing neu Taith hawlio unrhyw gostau teithio ychwanegol a chymwys gan Gyllid Myfyrwyr Cymru.

Gall myfyriwr cymwys hawlio am y canlynol pan yn astudio dramor:

- Ar gyfer lleoliad blwyddyn lawn, hyd at dair taith yn ôl rhwng y DU a sefydliad tramor. Dylai’r dosbarth a'r dull teithio fod yn rhesymol (er enghraifft, mae'n annhebygol y byddai hediadau dosbarth busnes yn cael eu hystyried yn rhesymol).
- Ar gyfer lleoliad tymor, hyd at un daith yn ôl rhwng y DU a sefydliad tramor. Dylai’r dosbarth a'r dull teithio fod yn rhesymol (er enghraifft, mae'n annhebygol y byddai hediadau dosbarth busnes yn cael eu hystyried yn rhesymol).
- Unrhyw gostau teithio dyddiol angenrheidiol tra bod y myfyriwr dramor at ddibenion mynychu'r sefydliad.
- Costau teithio ar gyfer plant dibynnol myfyriwr sy’n rhiant sengl, lle mae'n ofynnol i'r myfyriwr fynd â'i blant.
- Cost yswiriant meddygol a brynwyd at ddibenion astudio dramor.
- Cost fisâu, brechiadau a argymhellwyd a phrofion meddygol gorfodol sy'n amod ar gyfer cael mynediad i'r wlad letyol.

Mae'n ofynnol i fyfyrwyr cymwys sy'n hawlio Grant Teithio gan Gyllid Myfyrwyr Cymru dalu'r £303 cyntaf neu £1000 o'u hawliad cyntaf, yn dibynnu ar incwm eu cartref, ac eithrio fisâu ac yswiriant meddygol.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/trefniadaur-grant-teithio-ar-gyfer-myfyrwyr-cymwys-ar-raglenni-erasmus-turing-taith-sfwin-062023** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## Noder

- Ni all myfyrwyr hawlio am yr un costau sydd eisoes wedi'u had-dalu o'r rhaglenni symudedd.
- Mae'n rhaid i fyfyrwyr fod wedi defnyddio'r grant teithio sydd ar gael iddynt drwy'r rhaglen symudedd cyn gwneud cais i Gyllid Myfyrwyr Cymru.
- Gofynnir i fyfyrwyr gadarnhau fel rhan o broses hawlio Cyllid Myfyrwyr Cymru eu bod wedi defnyddio'r grant teithio sydd ar gael iddynt drwy'r rhaglen symudedd; mae'n bosibl hefyd y gofynnir i'r Brifysgol wirio unrhyw ddatganiad yn ymwneud â theithio ar gyfer rhaglen symudedd. Gall hawliadau fod yn destun monitro ac archwilio i sicrhau nad yw cyllid ar gyfer teithio yn cael ei ddyblygu.
- Dylai prifysgolion gyfeirio at delerau ac amodau pob rhaglen symudedd wrth ariannu myfyrwyr.
- Mae'r Atodiad yn darparu manylion am sut caiff y Grant Teithio ei asesu dros 4 chwarter (tymor) academaidd yn ystod y flwyddyn academaidd.

Mae gwybodaeth am y **Grant Teithio** gan gynnwys y ffurflen gais wedi cael eu diweddaru i gadarnhau'r uchod. Mae'r **canllawiau i ymarferwyr** hefyd wedi'u diweddaru. Ar hyn o bryd nid oes unrhyw gynlluniau i ddarparu pennod ar wahân yn y canllawiau ynghylch myfyrwyr ar raglenni symudedd.

# Ymholiadau am yr hysbysiad gwybodaeth hwn

Os oes gennych unrhyw ymholiadau, cysylltwch ag Is-adran Addysg Uwch Llywodraeth Cymru e-bostiwch: **isadrancyllidmyfyrwyr@llyw.cymru**. Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, Braille ac mewn ieithoedd eraill.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/trefniadaur-grant-teithio-ar-gyfer-myfyrwyr-cymwys-ar-raglenni-erasmus-turing-taith-sfwin-062023** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Atodiad

Asesir y grant teithio dros 4 chwarter (tymor) academaidd.

Rhaid i fyfyrwyr fod yn astudio dramor am o leiaf 50% o bob chwarter (tymor) academaidd y maent yn dymuno hawlio eu bod yn gymwys i dderbyn y grant am hyd at 3 siwrne yn ôl.

Er enghraifft, gall myfyriwr astudio dramor am 50% neu fwy o bob un o'r pedwar chwarter ond dim ond uchafswm o dair taith yn ôl y gall eu hawlio. Felly, mae 1 chwarter cymwys yn gymwys ar gyfer 1 siwrne yn ôl, mae dau chwarter cymwys yn gymwys ar gyfer 2 daith yn ôl ac mae 3 neu 4 chwarter cymwys yn gymwys ar gyfer yr uchafswm o 3 siwrne dychwelyd. Ym mhob achos byddai angen bodloni'r holl feini prawf cymhwystra eraill.

Mae'r ardaloedd cymwys fel a ganlyn:

## Chwarter 1

1 Medi i 31 Rhagfyr (122 diwrnod: o leiaf 61 diwrnod o astudio dramor)*
* Bydd unrhyw gyfnod tramor o 1 Awst hefyd yn cael ei gynnwys yng nghyfrifiad y chwarter cyntaf.

## Chwarter 2

1 Ionawr i 31 Mawrth (90 diwrnod: o leiaf 45 diwrnod o astudio dramor)

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/trefniadaur-grant-teithio-ar-gyfer-myfyrwyr-cymwys-ar-raglenni-erasmus-turing-taith-sfwin-062023** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## Chwarter 3

1 Ebrill i 30 Mehefin (91 diwrnod: o leiaf 46 diwrnod o astudio dramor)

## Chwarter 4

1 Gorffennaf i 31 Awst (62 diwrnod: o leiaf 31 diwrnod o astudio dramor)

**Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch.**
Drllenwch ein **datganiad hygyrchedd** i gael rhagor o wybodaeth.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/trefniadaur-grant-teithio-ar-gyfer-myfyrwyr-cymwys-ar-raglenni-erasmus-turing-taith-sfwin-062023** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.